**Cystadleuaeth Arlunio Syr Kyffin Williams Ysgolion Sir Ddinbych 2018**
**The Sir Kyffin Williams Denbighshire Schools Art Competition 2018**

*Ieuenctid dawnus yn cael eu hanrydeddu am ymdrechion artistig*
*Talented youngsters honoured for artistic efforts*

Mae dros dri chant o blant a phobl ifanc o ysgolion cynradd ac uwchradd awdurdod lleol ar draws Sir Ddinbych wedi cymryd rhan yng Nghystadleuaeth Arlunio Syr Kyffin Williams Ysgolion Sir Ddinbych 2018, cystadleuaeth arlunio newydd sbon, sydd eleni yn coffáu 100 mlynedd ers iddo gael ei eni.

Roedd Syr John "Kyffin" Williams, KBE RA RCA (1918-2006), yn bentiwr tirwedd Cymreig a oedd yn byw ym Mhwllfanogl, Llanfairpwll, ar Ynys Môn.  Fe'i hystyrir yn eang fel "peintiwr mwyaf adnabyddus Cymru ac un o artistiaid diffiniol yr 20fed ganrif".

Nod y gystadleuaeth, a gynhelir yn flynyddol, yw annog unrhyw un sy'n 18 oed neu'n iau, sy'n mynychu ysgol awdurdod lleol o fewn Sir Ddinbych, i fod yn greadigol a mynegi eu hunain yn greadigol, a chroesewir celf ar draws yr holl gyfryngau, gan gynnwys darlunio, tecstilau, cerflunwaith, peintio, gwneud printiau, cyfryngau cymysg, ffotograffiaeth a chyfryngau digidol.

Rhoddwyd canmoliaeth uchel gan yr arlunydd Cymreig, Keith Bowen, beirniad y gystadleuaeth ar gyfer 2018, am ansawdd a chreadigrwydd y 300+ o ddarnau o waith a gafwyd eleni.

Daeth Lucy Roberts o Ysgol Bro Dyfrdwy yn gyntaf yn y categori 5-7 am ei sgiliau lluniadu trawiadol, tra bod Dosbarth 4, Grŵp Garddwyr, Ysgol y Castell wedi ennill y brif wobr yn y categori 7-11 ar gyfer eu cerfluniau adar a chawsant eu canmol am eu medr arsylwi eithriadol. Enillodd  Hanna Jones o Ysgol Glan Clwyd y wobr gyntaf yn y categori 11-18 am ei thirwedd anhygoel o Tuscany.

Derbyniodd enillwyr eleni wobr ariannol tuag at brynu deunyddiau celf ar gyfer eu hysgol,

Over three hundred children and young people from local authority Primary and Secondary schools across the county of Denbighshire have taken part in The Sir Kyffin Williams Denbighshire Schools Art Competition 2018, a brand-new art competition, this year commemorating the 100th anniversary since his birth.

Sir John "Kyffin" Williams, KBE RA RCA (1918-2006), was a Welsh landscape painter who lived at Pwllfanogl, Llanfairpwll, on the Island of Anglesey.  He is widely regarded as "Wales' best known painter and one of the defining artists of the 20th century".

The competition, which will be held annually, aims to encourage anyone aged 18 or under, attending a local authority school in Denbighshire, to get creative and express themselves creatively, and welcomes art across all mediums, including drawing, textiles, sculpture, painting, printmaking, mixed media, photography and digital media.

Welsh artist and 2018 competition judge, Keith Bowen, had high praise for the quality and creativity of the 300+ submissions this year.

Lucy Roberts from Ysgol Bro Dyfrdwy came first in the 5-7 category for her remarkable portrait drawing skills, while Class 4, Gardeners' Group from Ysgol y Castell earned the top prize in the 7-11 category for their birds sculpture and were praised for their exceptional observational skills.  Hanna Jones from Ysgol Glan Clwyd was awarded first prize in the 11-18 category for her amazing Tuscany landscape.

This year's winners received a cash prize towards the purchase of art materials for their

dosbarth meistr celf gyda Keith Bowen ei hun yn Nhymor yr Hydref 2018 ac, fel braint cyffrous ychwanegol, gwahoddiad i arddangos eu gwaith buddugol fel rhan o **'Angerdd i Gymru' - Yn Cofio Celf Kyffin Williams PPRCA** yn Academi Frenhinol y Cambrian, Conwy, o 10 Mai - 30 Mehefin 2018.

Bydd arddangosfa o 79 o ddarnau o waith gan blant a phobl ifanc Sir Ddinbych a gyflwynwyd ac a ddewiswyd hefyd yn cael eu harddangos ym Mhencadlys Cyngor Sir Ddinbych, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, o 10 Mai tan 1 Mehefin 2018, cyn trosglwyddo i Academi Frenhinol y Cambria, Conwy, fel rhan o'i 136ain Arddangosfa Haf Blynyddol o 7 Gorffennaf tan 8 Medi 2018.

Gall ymwelwyr i arddangosfa Rhuthun bleidleisio dros eu hoff, gyda'r darn o'r safon uchaf yn ennill 'Gwobr Dewis y Bobl'.

school, an art masterclass with Keith Bowen himself in the Autumn Term 2018 and, as an additional thrill, an invitation to exhibit their prize-winning entries as part of **'A Passion for Wales' - Kyffin Williams PPRCA Centenary Celebration** at the Royal Cambrian Academy, Conwy, from 10 May – 30 June 2018.

An exhibition of 79 selected submissions from Denbighshire children and young people will also feature at Denbighshire County Council Headquarters, Wynnstay Road, Ruthin, from 10 May until 1 June 2018, before transferring to the Royal Cambrian Academy, Conwy, as part of its 136$^{th}$ Annual Summer Exhibition from 7 July until 8 September 2018.

Visitors to the Ruthin exhibition are able to vote for their favourite, with the top-rated piece winning the 'People's Choice Award'.

## Enillwyr Cyffredinol / Overall Winners

### Oedran / Age: 5-7



Lucy Roberts

Ysgol Bro Dyfrdwy

### Oedran / Age: 7-11



Class 4, Gardeners' Group

Ysgol y Castell

### Oedran / Age: 11-18



Hanna Jones

Ysgol Glan Clwyd